




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

2 Samuel 9: 1-13




- 1 Ar ôl i Dafydd ddod yn frenin dyma fo'n gofyn, "Oes yna unrhyw un yn dal ar ôl o deulu Saul, i mi fod yn garedig ato fel gwnes i addo i Jonathan?"



- 2 A dyma ddyn o'r enw Siba oedd wedi bod yn was i Saul yn cael ei alw at Dafydd.



- 3 Dyma'r brenin yn ei holi, "Oes yna unrhyw un o deulu Saul yn dal yn fyw, i mi fod yn garedig ato fel gwnes i addo o flaen Duw?" Atebodd Siba, "Oes. Mae yna fab i Jonathan, Meffibosheth, sy'n dal yn fyw. Mae e'n anabl. Mae e'n gloff yn ei ddwy droed."



-
- 4 Pan oedd Meffibosheth yn bump oed daeth y newydd o Jesreel fod Saul a Jonathan wedi eu lladd. Dyma ei nyrs yn gafael ynddo i ffoi. Ond wrth iddi ruthro dyma fe'n cwmpo, a dyna pryd aeth e'n gloff. (2 Samuel 4:4)



-
- 5 Ble mae e?" meddai'r brenin.
A dyma Siba'n dweud, "Mae e yn Lo-debâr, yn aros gyda Machir fab Ammiel." Felly dyma'r brenin Dafydd yn anfon i'w nôl o dŷ Machir.




-
- 6 Pan ddaeth Meffibosheth at y brenin Dafydd, dyma fe'n mynd ar ei liniau ac ymgrymu o'i flaen â'i wyneb ar lawr. "Paid bod ag ofn," meddai Dafydd wrtho, "Dw i'n mynd i fod yn garedig atati, fel gwnes i addo i dy dad Jonathan. Dw i am roi tir dy daid Saul yn ôl i ti." Dyma Meffibosheth yn ymgrymu eto a dweud, "Pwy ydw i? Pam ddylet ti gymryd sylw o gi marw fel fi?"



-
- 7 Yna dyma'r brenin yn galw am Siba, gwas Saul. Ac meddai wrtho, "Dw i wedi rhoi popeth oedd piau Saul a'i deulu i wŷr dy feistr. Dw i eisïau i ti a dy feibion, a dy weision i gyd, ofalu am y tir iddo. Bydd cynnyrch y tir yn fwyd i deulu dy feistr."



-
- 8 Hefyd cafodd Meffibosheth fwyta'n rheolaidd wrth fwrdd y brenin, fel petai'n un o feibion y brenin ei hun.



-
- 9 Roedd teulu Siba i gyd, a'i weision, yn gweithio i Meffibosheth. Ond roedd Meffibosheth ei hun yn byw yn Jerwsalem, ac yn cael bwyta'n rheolaidd wrth fwrdd y brenin.



-
- 10 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
